# LLYWODRAETH CYMRU

# CANLLAWIAU: DEDDF TIROEDD COMIN 2006

# HOLLTI HAWLIAU PORI DROS DRO

## Crynodeb

Mae Deddf Tiroedd Comin 2006 (adran 9) yn gwahardd hollti hawliau comin yn barhaol, ond yn caniatáu ar gyfer eithriadau o dan rai amgylchiadau penodol. Mae'r Canllawiau hyn yn ymdrin ag un o'r amgylchiadau hyn yn unig, sef Hollti Dros Dro drwy Osod neu Lesio.

Nodir y diffiniad o hollti dros dro, enghreifftiau o amgylchiadau lle gallai fod yn fuddiol, a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r arfer, yn y ddogfen hon.

**Noder nad yw'r ddogfen hon yn arweiniad hollgynhwysol i'r ddeddfwriaeth, ac nad oes ganddi unrhyw statws cyfreithiol. Os ydych chi'n ansicr, dylech gyfeirio at Ddeddf Tiroedd Comin 2006 neu ymgynghori â'ch cynghorydd cyfreithiol eich hun.**

**Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddir y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru i esbonio pwrpas adran 9 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 (“y Ddeddf”) a’r modd y bwriedir i’r adran honno weithredu, a’r eithriadau a geir yn Atodlen 1 i’r Ddeddf.

1.2 Mae adran 9 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 (”y Ddeddf”) yn gwahardd hollti hawliau comin. Fodd bynnag, mae’r gwaharddiad hwnnw’n ddarostyngedig i’r eithriadau a bennir yn Atodlen 1, ac y mae ei effaith yn ôl-weithredol, o 28 Mehefin 2005 ymlaen. Nod y canllawiau hyn yw esbonio sut y bydd yr eithriad a nodir ym mharagraff 2 o Atodlen 1 i’r Ddeddf yn gweithredu’n ymarferol.

1.3 Mae’r canllawiau hyn yn cyfeirio at y sefyllfa yng Nghymru. Dylid ceisio cyngor gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ynglŷn ag arfer pwerau o dan y Ddeddf yn Lloegr.

## 2. Hollti dros dro

***Diffiniad – Beth yw hollti hawliau dros dro?***

2.1 Mae'r rhan fwyaf o hawliau comin yn gysylltiedig ag adeiladau neu dir penodol (a elwir y "rhandir trech"), a bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan y person sy'n meddiannu'r adeilad neu dir hwnnw. Mae hawliau wedi'u dyrannu i'r rhandir trech i osod nifer benodedig o anifeiliaid pori ar dir comin penodol, yn unol â system ffermio sy'n dyddio'n ôl i'r oesoedd canol.

2.2 Caniateir i bwy bynnag sy'n meddiannu'r rhandir trech ar unrhyw bryd (boed fel perchennog neu fel tenant) ddefnyddio'r hawliau comin sy'n perthyn i'r rhandir trech. Felly, pan werthir fferm sydd â hawliau yn gysylltiedig â hi, mae'r perchennog newydd yn cael yr hawl i ddefnyddio'r hawl comin.

2.3 Mae hollti hawliau comin yn digwydd dim ond pan fo'r person sy'n defnyddio'r hawliau yn wahanol i'r person sy'n meddiannu'r rhandir trech y mae'r hawliau yn gysylltiedig ag ef.

2.4 Yn y gorffennol (cyn 28 Mehefin 2005) roedd modd i berchnogion rhandiroedd trech werthu eu hawliau comin i bobl eraill. "Hollti parhaol" oedd yr enw ar hynny gan fod yr hawliau yn cael eu hollti'n barhaol oddi wrth y tir yr oeddent yn gysylltiedig ag ef yn draddodiadol. Roedd y perchennog newydd yn rhydd i'w defnyddio, i'w gosod ar rent neu i'w gwerthu i bobl eraill fel y dymunai, pa un a oedd y person hwnnw'n berchen unrhyw dir a oedd yn gysylltiedig â'r comin ai peidio. Yr enw ar y newid hwn i statws yr hawliau oedd dal "hawliau mewn gros".

2.5 Mae'r arfer o hollti'n barhaol bellach wedi ei wahardd o dan y Ddeddf, ac eithrio trwy orchymyn Gweinidogion Cymru dan amgylchiadau penodol a chyfyngedig iawn. Mae yna bobl, o hyd, sy'n dal hawliau mewn gros, a chaniateir iddynt o hyd werthu'r hawliau hyn, neu eu gosod ar rent, neu eu rhoi, i bobl eraill. Ni chaniateir i berson sy'n berchennog rhandir trech werthu ei hawliau comin na'u rhoi i rywun arall yn barhaol, oni fo hefyd yn gwerthu neu'n rhoi'r tir y mae'r hawliau'n gysylltiedig ag ef.

2.6 Fodd bynnag, caniateir "hollti dros dro". Mae "hollti dros dro" yn caniatáu i berchennog neu feddiannydd rhandir trech naill ai lesio neu drwyddedu'r cyfan neu ran o'i dir, ond cadw'r hawliau comin iddo ef ei hun. Caniateir hefyd lesio neu drwyddedu'r cyfan neu rai o'i hawliau comin, tra'n parhau i feddiannu'r rhandir trech, am gyfnod penodedig o amser. Gall hyn alluogi person i ychwanegu at ei hawliau ei hun, neu i gael defnyddio'r hawliau pan nad oes ganddo unrhyw hawliau ei hun.

Gall hollti hawliau dros dro ddigwydd pa un a oes arian yn rhan o'r trefniant ai peidio.

2.7 Ceir nifer o senarios enghreifftiol yn Atodiad A. Dylid nodi nad yw'r enghreifftiau a roddir yn rhestr hollgynhwysol, o bell ffordd. Ni fwriedir iddynt wneud mwy na darparu gwybodaeth sylfaenol i'r rheiny sy'n ystyried ymrwymo i gytundebau hollti dros dro. Gellir cael mwy o wybodaeth gan y Swyddog Cofrestru Tiroedd Comin lleol perthnasol.

***Y ddeddfwriaeth gyfredol***

2.8 Er bod Adran 9 o'r Ddeddf yn gwahardd hollti hawliau, mae Paragraff 2 o Atodlen 1 yn caniatáu hollti dros dro trwy gyfrwng Gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru neu, os oes Cyngor Tir Comin wedi ei sefydlu mewn perthynas â'r comin, unrhyw reolau sydd wedi'u gwneud gan y cyngor tir comin hwnnw.

2.9 Yng Nghymru, o dan ddarpariaethau paragraff 2, roedd Gorchymyn Tiroedd Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2007 yn caniatáu hollti dros dro hawliau comin i bori anifeiliaid oddi wrth y tir y mae'r hawl yn gysylltiedig ag ef, trwy lesio neu drwyddedu'r hawl, am gyfnod hwyaf o 3 blynedd (adnewyddadwy). Daeth y Gorchymyn hwnnw, a oedd yn cael effaith o 28 Mehefin 2005 ymlaen, i rym ar 1 March 2007.

2.10 Bwriedid i'r Gorchymyn hwnnw fod yn fesur dros dro i ddiwallu'r angen i gyfrifo am gytundebau a oedd eisoes yn bodoli pan ddaeth gwaharddiadau Deddf Tiroedd Comin 2006 ar hollti hawliau i rym. Pe na bai'r Gorchymyn wedi ei wneud, ni fyddai ffermwyr a oedd yn dibynnu ar drefniadau lesio yn cael eu caniatáu i bori eu hanifeiliaid ar y tiroedd comin perthnasol yn gyfreithlon. Ar adeg gwneud y Gorchymyn, bwriedid ystyried rhagor o ddeddfwriaeth, gan nodi unrhyw angen am eithriadau mwy penodol.

2.11 Erbyn hyn mae'r Gorchymyn wedi cael ei adolygu, ac y mae'r canllawiau hyn yn nodi'r trefniadau at gyfer hollti dros dro fel y'u pennir yn y gorchymyn newydd sy'n disodli Gorchymyn 2007, sef Gorchymyn Tiroedd Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2014.

***Mathau eraill o hollti***

2.12 Ystyrir bod **"hollti trwy drosglwyddo i gyrff cyhoeddus"** yn eithriad cyfyngedig i'r gwaharddiad ar hollti parhaol a ganiateir o dan baragraff 1 o Atodlen 1 trwy orchymyn gan Weinidogion Cymru, ac felly yn eithriad a ganiateir o dan y Ddeddf. Nid yw'r Canllawiau hyn yn ymdrin â hyn yn fanwl. Mae hyn yn gysylltiedig â hawliau a geir gan Gyngor

Tiroedd Comin (os sefydlwyd un o dan Ran 2) a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae’n galluogi parhau i gaffael hawliau comin er budd cadwraeth natur.

## 3. Newidiadau i’r trefniadau ar gyfer Hollti Dros Dro o dan y Gorchymyn newydd

3.1 Roedd Gorchymyn Tiroedd Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2007 yn darparu fel a ganlyn:

*Caniateir i hawl comin i bori anifeiliaid y mae adran 9(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 yn gymwys iddi gael ei hollti dros dro oddi wrth y tir y mae'r hawl honno'n gysylltiedig ag ef drwy brydlesu neu drwyddedu:*

*(a) yr hawl comin ar ei phen ei hun, ar yr amod na fydd cyfnod y les neu'r drwydded yn hwy na thair blynedd; neu*
*(b) y tir, neu ran o'r tir, y mae'r hawl comin yn gysylltiedig ag ef, heb yr hawl comin.*

3.2 Ni fydd y ddau fath hyn o lesio neu drwyddedu yn newid, ar wahân i’r terfyn amser 3 blynedd yng nghymal 2 (a) sydd erbyn hyn wedi ei newid i **gyfnod nad yw’n hwy na 5 mlynedd (adnewyddadwy)**. Gwneir hyn er mwyn cysoni’r cyfnod lesio/trwyddedu â’r cyfnod contract o 5 mlynedd sy’n ofynnol o dan gynllun Glastir.

3.3 Pan fo cytundeb hollti dros dro eisoes mewn grym, a’r deiliad eisiau ymrwymo i gytundeb cynllun amaeth-amgylcheddol, byddai’n ddoeth adnewyddu’r cytundeb hollti dros dro ar yr un pryd ag y mae’n ymuno â’r cynllun amaeth-amgylcheddol, er mwyn i’r ddau gydredeg.

3.4 Mae rhai cymalau ychwanegol hefyd wedi cael eu hychwanegu i’r Gorchymyn. Mae’n ofynnol bellach hysbysu cyrff penodol sydd â buddiant yn y tir comin am unrhyw drefniadau lesio neu drwyddedu newydd. Nod hyn yw sicrhau y caiff y tir a chofnodion swyddogol eu rheoli’n effeithiol. Yn y dyfodol bydd yn rhaid o leiaf hysbysu’r bobl / sefydliadau canlynol am unrhyw drefniadau lesio/trwyddedu newydd o fewn 28 diwrnod:

- Yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin y saif y tir yn ei ardal;
- Tirfeddiannwr y tir comin y mae’r hawliau’n arferadwy arno;
- Ysgrifennydd unrhyw gymdeithas cominwyr, cymdeithas porwyr, Cyngor Tir Comin (os sefydlwyd un) perthnasol neu unrhyw gorff lleol arall sy’n gyfrifol am reoli’r tir comin y mae’r hawliau comin a lesir yn gymwys iddo;

- Cyfoeth Naturiol Cymru, os yw'r tir comin y mae'r hawliau'n gymwys iddo'n cynnwys safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA) o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

3.5 Rydym yn argymell defnyddio ffurflen hysbysu CA.2006 No.1 (TS) (wedi'i hatodi yn Atodiad B) i roi gwybod am gytundebau hollti dros dro. Os defnyddir y ffurflen, rhaid iddi gael ei llofnodi gan lesddeiliad a lesydd yr hawliau. Gallwch gael copïau o'r ffurflen hon gan eich Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin (awdurdod lleol) neu gallwch ei lawrlwytho o wefan Llywodraeth Cymru. Gwnewch yn siŵr y caiff y copïau wedi'u cwblhau eu hanfon at eich awdurdod lleol, tirfeddiannwr y comin, cymdeithas y cominwyr, cymdeithas y porwyr, y Cyngor Tir Comin (os sefydlwyd un), a Chyfoeth Naturiol Cymru yn achos y tiroedd comin hynny sydd â SoDdGA arnynt (neu ei olynydd) fel y bo'n briodol. Dylech hefyd gadw copi o'r ffurflen ar gyfer eich cofnodion eich hun.

3.6 Fel arfer gorau, dylai Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin gadw cofnod cwbl gyfoes o fanylion defnyddiwr cyfredol yr hawliau comin, unwaith y bydd yr adrannau perthnasol o ran 1 o'r Ddeddf wedi dod i rym.

3.7 Ar y person sy'n lesio, neu'n trwyddedu, yr hawliau neu'r tir y mae'r **cyfrifoldeb** am hysbysu ei Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin. Cynghorir pawb sy'n arfer ei hawliau newydd o dan gytundeb hollti dros dro i drafod gyda pherchennog y rhandir trech, er mwyn sicrhau bod ffurflen hysbysu wedi cael ei chwblhau a'i chyflwyno.

3.8 Gan ei bod yn ofynnol i bob cytundeb hollti dros dro gynnwys cymal hysbysu, bydd angen hysbysu'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin ynghylch pob cytundeb hollti dros dro, pa un a yw'r cytundeb wedi ei wneud ar lafar neu mewn ysgrifen, pa un a oes arian yn rhan o'r trefniant ai peidio, a beth bynnag fo hyd cyfnod y cytundeb.

3.9 Os hawlir ac arferir hawliau comin yn groes i ofynion y Ddeddf, gallai hyn arwain at ganlyniadau i'r person sy'n arfer yr hawl, neu effeithio ar hawlogaethau yn y dyfodol a dwyn cosbau yn ei sgil, er enghraifft:

- Ni fydd y person yn gallu defnyddio hawliau a gaffaelwyd yn anghyfreithlon at ddibenion hawlio hawliau o dan Gynllun y Taliad Sengl.

- Ni fydd y person yn gallu defnyddio hawliau a gaffaelwyd yn anghyfreithlon at ddibenion cymryd rhan mewn unrhyw gytundeb amaeth-amgylcheddol (e.e. Glastir) neu gytundeb rheoli arall.

- Ni fydd gan y person unrhyw fuddiant cyfreithiol yn y comin at ddibenion gwrthwynebu unrhyw ymyrraeth â'r comin, neu gael budd o unrhyw ddigollediad a gynigir o ganlyniad i ymyrraeth o'r fath.

- Ni fydd y person yn cael budd o'r imiwnedd rhag y ddyletswydd i gymryd gofal, a roddir gan adran 7 o Ddeddf Anifeiliaid 1971, mewn perthynas ag anifeiliaid sy'n crwydro oddi ar dir sydd heb ei ffensio i briffordd.

3.10 Er mwyn dilysu hawliad am hawliau o dan Gynllun y Taliad Sengl, bydd angen i chi ddangos tystiolaeth o'r hawliau sydd ar gael mewn unrhyw hawliad ar dir comin. Os ydych yn defnyddio Hawliau Comin yn rhinwedd Cytundeb Hollti Dros Dro, er mwyn dilysu hawliad ar gyfer hawliau Cynllun y Taliad Sengl, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o hysbysiad am y cytundeb hollti dros dro.